| Cyfenw | Rhif y Ganolfan | Rhif yr Ymgeisydd |
|---|---|---|
| Enw(au) cyntaf | | 0 |

**TGAU**

3000N30-1

A21-3000N30-1

**DYDD MAWRTH, 9 TACHWEDD 2021 – BORE**

# CYMRAEG IAITH
## Uned 3
## Darllen ac Ysgrifennu: Trafod, Perswâd a Chyfarwyddiadol

1 awr 30 munud

| I'r Arholwr yn Unig | | |
|---|---|---|
| | **Marc Uchaf** | **Marc yr Arholwr** |
| **Adran A (Darllen)** | **30** | |
| **Adran B (Ysgrifennu)** | **20** | |
| **Cyfanswm** | **50** | |

3000N301 01

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Deunydd Darllen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du. Peidiwch â defnyddio beiro gel na hylif cywiro.

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch **bob** cwestiwn yn Adran A.

Dewiswch **un** o'r testunau yn Adran B ar gyfer y dasg ysgrifennu.

Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd gwag priodol yn y llyfryn hwn.

Mae tudalennau ychwanegol ar ddiwedd y papur os oes angen mwy o le arnoch ar gyfer eich atebion. Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi'r rhif cywir i'r cwestiwn.

Awgrymir eich bod yn treulio eich amser gan ddilyn y canllawiau canlynol:

Adran A – tua 10 munud yn darllen
– tua 50 munud yn ateb y cwestiynau

Adran B – tua 5 munud yn cynllunio
– tua 25 munud yn ysgrifennu

Ni allwch ddefnyddio geiriaduron yn yr arholiad hwn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Adran A (Darllen): 30 marc

Adran B (Ysgrifennu): 20 marc

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

NOV213000N30101

© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

## ADRAN A (Darllen): 30 marc

Mae 6 darn darllen ar y thema 'Graffiti' yn y Deunydd Darllen sydd ar wahân.
Darllenwch **bob un** o'r darnau'n ofalus ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.

**Darn Darllen 1**
**Clwb Graffiti**

**A1.** Faint o'r gloch bydd y clwb graffiti'n gorffen? [1]

..................................................................................................................................................

**A2.** Sut mae hi'n bosib ymuno â'r clwb? [1]

..................................................................................................................................................

**A3.** Enwch **un** dechneg i berswadio sy'n cael ei defnyddio yn yr hysbyseb a rhowch enghraifft ohoni. [2]

..................................................................................................................................................

..................................................................................................................................................

**Darn Darllen 2**
**A yw graffiti'n anghyfreithlon?**

**A4.** Beth yw'r gosb os yw unigolyn yn cael ei gyhuddo o ddifrod sy'n werth llai na £10,000?
Rhowch ✓ yn y blwch priodol. [1]

- Carchar am fwy na 10 mlynedd ☐
- Rhybudd i lanhau'r difrod o fewn 28 diwrnod ☐
- Dirwy neu wasanaeth cymunedol ☐
- Dirwy yn y fan a'r lle o £50 ☐


ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

**Darn Darllen 3**
**Banksy Bach**

**A5.** Mae pedwar o'r gosodiadau isod yn gywir wrth drafod Banksy Bach a'i fywyd. Mae un ateb cywir wedi'i roi i chi'n barod. Rhowch ✓ yn y blychau gyferbyn â'r **tri** sylw cywir arall. [3]

| | |
|---|---|
| Mae'n hoff o waith yr arlunydd Picasso. | ✓ |
| Dechreuodd wneud graffiti drwy beintio'r waliau yn nhref Llandudno gyda phaent du. | |
| Mae'n credu y dylai celf gael ei weld y tu allan i orielau. | |
| Mae artistiaid fel Banksy yn poblogeiddio graffiti ymysg pobl ifanc. | |
| Nid yw Banksy Bach erioed wedi bod mewn trafferth â'r heddlu. | |
| Roedd yn arfer braslunio mewn llyfr cyn rhoi graffiti ar waliau. | |
| Nid yw arlunwyr graffiti profiadol yn fodlon dysgu eu crefft i arlunwyr dibrofiad. | |
| Dim ond y pethau mae'n eu hoffi sy'n ysbrydoli Banksy Bach. | |

3000N301
03

**A6.** Nodwch **ddwy** o fanteision graffiti. [2]

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................


© WJEC CBAC Cyf.


**Trowch y dudalen.**

Arholwr yn unig

**Darn Darllen 4**
**Celfyddyd neu Fandaliaeth?**

**A7.** Tanlinellwch yr ymadrodd yn y paragraff isod sy'n golygu 'mewn gwirionedd'. [1]

> Yn dilyn yr holl hanes diweddar am anrheg anghyfreithlon Banksy i dref Port Talbot dros gyfnod y Nadolig 2018, rydw i'n synnu bod y cyfryngau'n rhoi'r fath fri i rywbeth sydd – yn ei hanfod – yn anghyfreithlon. Trosedd o fandaliaeth ydy graffiti. Ystyriwch beth mae'r unigolyn yn ei wneud – marcio neu ddifetha golwg safle neu eiddo rhywun arall heb ganiatâd. A dyna a wnaeth Banksy – difrodi garej person cyffredin.

**A8.** Beth yw barn yr awdur ynghylch graffiti? Rhowch resymau dros eich ateb. [2]

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................

........................................................................................................................................



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

**A9.** Sut mae'r awdur wedi mynd ati i gyflwyno'r farn honno? [6]

3000N301 05



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig



ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

## Darn Darllen 5
## Sut dylem ni ymateb i'r fandaliaeth ar gofeb Tryweryn?

**A10.** Beth yw bwriad Meirion MacIntyre Huws yn y darn hwn? Rhowch ✓ yn y blwch priodol. [1]

Hysbysebu ☐

Perswadio ☐

Cyflwyno Gwybodaeth ☐

Disgrifio ☐

**A11.** Edrychwch ar y gosodiadau isod sy'n dod o'r darn darllen. Nodwch a yw pob brawddeg yn cynnwys **ffaith** neu **farn** trwy roi ✓ yn y golofn briodol. [2]

| | **Ffaith** | **Barn** |
|---|---|---|
| Nid bytheirio a rhegi a galw am dywallt gwaed yw'r ateb hirdymor. | | |
| Mae rhai wedi galw ar Amgueddfa Werin Sain Ffagan i ddiogelu'r wal. | | |
| Nid mewn amgueddfa y dylai rhywbeth sydd yn parhau i wneud ei waith fod. | | |
| Mae rhywun wedi ymosod ar wal 'Cofiwch Dryweryn'. | | |

3000N301
07

**A12.**

> Ond wedyn pam na ddylen ni fynd â'r cerrig gwreiddiol i'r Amgueddfa Werin lle byddan nhw'n cael eu gwarchod ddydd a nos hyd dragwyddoldeb?

Beth yw ystyr yr ymadrodd 'hyd dragwyddoldeb'? [1]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

**Darn Darllen 6**
**Anfarwoli Greta Thunberg ar wal ym Mryste**

**A13.** O ba wlad y daw Greta Thunberg yn wreiddiol? [1]

..............................................................................................................................................

**Darnau Darllen 5 a 6**
**Sut dylem ni ymateb i'r fandaliaeth ar gofeb Tryweryn?**
**Anfarwoli Greta Thunberg ar wal ym Mryste**

**A14**. Mae problemau yn ein hwynebu yn y byd.

**Cyfunwch a chrynhowch wybodaeth** o'r ddau ddarn darllen i ddangos:

- pa broblemau sy'n ein hwynebu ni
- sut gallwn ni ymateb yn gadarnhaol i'r problemau hyn. [6]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr
yn unig



ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig



© WJEC CBAC Cyf.

**ADRAN B (Ysgrifennu): 20 marc**

*Yn yr adran hon byddwch yn cael eich asesu ar ansawdd eich sgiliau* **ysgrifennu**.

**B1.** Dewiswch un o'r canlynol i ysgrifennu amdano.

**Naill ai,**

*(a)* 'Does dim byd i bobl ifanc ei wneud yn fy ardal i.'
Ysgrifennwch erthygl yn mynegi eich barn ar y gosodiad uchod.

**Neu,**

*(b)* Lluniwch hysbyseb fanwl i'w chynnwys yng nghylchgrawn yr ysgol yn ceisio denu disgyblion i ymuno â chlwb o'ch dewis chi.

Mae 10 marc am gyfathrebu a threfn a 10 marc am ysgrifennu'n gywir. [20]

- *Os byddwch yn defnyddio gwybodaeth o'r testunau bydd angen i chi ddefnyddio eich geiriau eich hun.*
- *Gallwch gynllunio eich gwaith yn y blwch isod cyn dechrau ysgrifennu ar y tudalennau sy'n dilyn.*
- *Gallwch ddefnyddio tudalen ychwanegol sydd yng nghefn y llyfryn hwn os bydd angen.*
- *Dylech geisio ysgrifennu rhwng 200 a 300 o eiriau.*

CYNLLUN:

Arholwr yn unig

TEITL:



© WJEC CBAC Cyf. 

Arholwr
yn unig

Arholwr yn unig

**DIWEDD Y PAPUR**



© WJEC CBAC Cyf.

| Rhif y Cwestiwn | **Tudalen ychwanegol, os oes ei hangen.**<br>**Ysgrifennwch rifau'r cwestiynau ar ymyl chwith y dudalen.** |
|---|---|
| | |

Arholwr yn unig

| Rhif y Cwestiwn | Tudalen ychwanegol, os oes ei hangen. Ysgrifennwch rifau'r cwestiynau ar ymyl chwith y dudalen. |
|---|---|
| | |

Arholwr yn unig


ⓗ WJEC CBAC Cyf.

TGAU

3000N30-1A

A21-3000N30-1A

**DYDD MAWRTH, 9 TACHWEDD 2021 – BORE**

# CYMRAEG IAITH
## Uned 3

**Darllen ac Ysgrifennu: Trafod, Perswâd a Chyfarwyddiadol**

1 awr 30 munud

**DEUNYDD DARLLEN I'W DDEFNYDDIO GYDAG ADRAN A**

3000N301A 01

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**DARN DARLLEN 1**




*Wyt ti rhwng 10 ac 16 oed? Ai ti yw'r Banksy nesaf?*

*Tyrd i ymuno â chlwb graffiti newydd sbon i bobl ifanc Sir Conwy.*

*Dros 5 sesiwn cei gyfle i*

- *fraslunio a dylunio*
- *dysgu gwybodaeth sylfaenol am baent chwistrell*
- *creu celf ar gynfas drwy ddefnyddio paent chwistrell*
- *amlinellu a defnyddio technegau eraill*
- *creu murlun ar wal fel rhan o grŵp.*

*Bydd y cyfarfod cyntaf ar 26 Ionawr rhwng 16:30 a 18:30*
*yn Venue Cymru, Llandudno.*

*Archeba dy le am ddim drwy e-bostio clwbgraffiti@conwy.gov.uk*

**DARN DARLLEN 2**

# A yw graffiti'n anghyfreithlon?

Mae unrhyw un sy'n cael ei ddal yn creu graffiti yn gallu cael ei arestio a'i erlyn o dan **Ddeddf Difrod Troseddol 1971**. Os yw'r difrod yn fwy na £10,000, gall y troseddwr fynd i'r carchar am ddeng mlynedd. Os yw'r difrod yn llai, gall y troseddwr dderbyn dirwy neu wasanaeth cymunedol.

Cyflwynodd **Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003** bwerau newydd i gynghorau lleol gosbi troseddwyr. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Dirwy yn y fan a'r lle o £50 i unrhyw un sy'n cael ei ddal yn creu graffiti ar eiddo cyhoeddus.
- Rhoi rhybudd glanhau i berchennog eiddo sydd â graffiti arno. Os na fydd yr eiddo yn cael ei lanhau mewn 28 diwrnod, gall y cyngor ei hun lanhau'r graffiti a chodi tâl ar y perchennog am y gwasanaeth hwn.
- Ei gwneud yn drosedd gwerthu paent chwistrell i rai dan 16 oed. Os nad yw siopwr yn gallu profi ei fod wedi cymryd camau rhesymol i ddarganfod oedran y person, gall gael dirwy hyd at £2,500.



3000N301A
03

**DARN DARLLEN 3**

# Banksy Bach

24 mlwydd oed

Llangefni



**Pa bryd dechreuaist ti greu graffiti?**

Pan oeddwn i'n ifanc iawn – tua 12 neu 13 oed. Roeddwn i'n hoffi'r syniad o dynnu lluniau ar waliau – mae'n ffordd wych o fynegi dy hun, felly es i ati i wneud darnau bach o graffiti ar waliau'r dref efo can o baent du. I ddechrau, roeddwn i'n mwynhau sgetsio cymeriadau bach mewn llyfr ac yna eu trosglwyddo nhw i waliau. Roeddwn i'n trio creu rhywbeth a fyddai'n gwneud i bobl stopio ac edrych arno fo.

**Beth sy'n dy ysbrydoli di?**

Os bydda i'n gweld rhywbeth dw i'n ei hoffi, rhywbeth dw i'n ei gasáu, neu rywbeth sydd o ddiddordeb i mi, mi fydda i'n creu graffiti amdano. Rydw i'n hoff iawn o waith Picasso. Mae gan yr artist arddull unigryw. Rydw i wedi bod yn rhan o brosiectau lleol sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth o graffiti yn y gymuned ac maen nhw wedi dod â llawer o wahanol bobl a diwylliannau at ei gilydd i greu celf anhygoel. Dydw i ddim yn credu y dylai celf gael ei gyfyngu i orielau.

**Pa gyngor fyddet ti'n ei roi i rywun sydd â diddordeb mewn graffiti?**

Os gweli di ddarn o graffiti rwyt ti'n ei hoffi yna ceisia ddarganfod pwy wnaeth y darn, ceisia gwrdd â nhw a siarada â nhw. Mae llawer o artistiaid hŷn yn fodlon hyfforddi a dysgu eu harddull graffiti i artistiaid iau.

**Fuost ti mewn trafferth efo'r heddlu erioed?**

Ambell waith, ond dim byd rhy ddifrifol. Mae'n anodd iawn cyflwyno dy gelf heb dorri'r gyfraith. Ymhen pum mlynedd rydw i'n gobeithio y bydd hi'n haws i bobl ifanc gael mynediad at graffiti. Mae artistiaid fel Banksy yn bendant yn gwneud y ffurf gelfyddydol yn hynod boblogaidd a dw i'n meddwl y bydd hyn yn helpu i gael pobl ifanc i gymryd rhan.

**DARN DARLLEN 4**

# Celfyddyd neu Fandaliaeth?



Yn dilyn yr holl hanes diweddar am anrheg anghyfreithlon Banksy i dref Port Talbot dros gyfnod y Nadolig 2018, rydw i'n synnu bod y cyfryngau'n rhoi'r fath fri ar rywbeth sydd – yn ei hanfod – yn anghyfreithlon. Trosedd o fandaliaeth ydy graffiti. Ystyriwch beth mae'r unigolyn yn ei wneud – marcio neu ddifetha golwg safle neu eiddo rhywun arall heb ganiatâd. A dyna a wnaeth Banksy – difrodi garej person cyffredin. Efallai fod y neges yn y llun yn un bwysig ynghylch llygredd aer Port Talbot, ond dydy hyn ddim yn esgusodi'r torcyfraith sydd wedi digwydd.

Mae fandaliaeth o'r fath yn effeithio'n sylweddol ar unigolion a'r gymuned. Mae cael gwared ar graffiti yn gostus iawn. Mae tua £1 biliwn o arian y trethdalwyr yn cael ei wario'n flynyddol ar lanhau graffiti. Pa hawl sydd gan unigolyn i ddifrodi eiddo cyhoeddus? Mae gwario'r arian cyhoeddus hwn ar lanhau cysgodfan bws, pont, ysgol neu wal tŷ bach yn golygu nad yw arian yn cael ei wario ar bethau a all fod o fudd i'r gymuned fel adnewyddu parciau i blant a chynnal clybiau ieuenctid. Os yw'r unigolion yma eisiau creu graffiti, mae rhwydd hynt iddyn nhw wneud hynny ar eu heiddo eu hunain.

Gall creu graffiti fod yn weithgaredd peryglus. Ble mae'r hwyl mewn peryglu eich bywyd er mwyn ysgrifennu eich enw ar wal? Onid oes gan bobl ifanc rywbeth gwell i'w wneud? Mae graffiti'n cael ei ddefnyddio'n aml mewn lleoliadau peryglus, fel ar hyd traciau trên a thwneli. Yn ôl arolwg gan y *National Rail*, tresmasu ar y cledrau sy'n achosi'r nifer mwyaf o farwolaethau ar y rheilffyrdd bob blwyddyn.

Mae'n bryd i ni edrych ar y sefyllfa fel ag y mae hi mewn gwirionedd. Fandaliaid yw'r rhai sy'n creu graffiti ar eiddo cyhoeddus. Ddylen ni ddim rhoi sylw i'w gwaith. Mae angen eu cosbi'n llym.

**DARN DARLLEN 5**

# Sut dylem ni ymateb i’r fandaliaeth ar gofeb Tryweryn?

16 Ebrill 2019




**Nos Wener, 13 Ebrill, cafodd wal 'Cofiwch Dryweryn' ger Llanrhystud, Ceredigion, ei difrodi am y trydydd tro eleni.**

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi dweud eu bod yn trin difrodi'r wal fel trosedd casineb. Ond sut dylem ni ymateb i'r difrodi? Dyma sylwadau **Meirion MacIntyre Huws**:

“Mae rhywun wedi ymosod ar wal 'Cofiwch Dryweryn'. Dydy o fawr o syndod a dweud y gwir gan ystyried ein bod ni’n ymateb yn chwyrn bob tro mae’r wal yn cael ei thargedu drosodd a throsodd. Felly be' wnawn ni?

Yn sicr nid bytheirio a rhegi a galw am dywallt gwaed yw'r ateb hirdymor ond chwyldro llawer iawn mwy effeithiol, sef defnyddio'r Gymraeg. Mae mor syml â hynny. Ei defnyddio o hyd ac o hyd. Mynnu'r Gymraeg a'i siarad byth a beunydd. Cychwyn pob sgwrs yn Gymraeg, eu syrffedu nhw efo'r iaith a phrofi nad ydi hi am ddiflannu.

Mae rhai wedi galw ar Amgueddfa Werin Sain Ffagan i ddiogelu’r wal ond mae gan y Cymry (Cymraeg a di-Gymraeg) fwy o awydd ei gweld yn sefyll na sydd gan ei gelynion i'w gweld yn syrthio.

Ond wedyn pam na ddylen ni fynd â'r cerrig gwreiddiol i'r Amgueddfa Werin lle byddan nhw’n cael eu gwarchod ddydd a nos hyd dragwyddoldeb? Yna, fe gasglwn ni griw at ei gilydd i Lanrhystud a chodi wal newydd sbon, fymryn yn dalach a lletach na'r llall a'i phaentio fel yr oedd hi'n wreiddiol.

Achos nid mewn amgueddfa y dylai rhywbeth sydd yn parhau i wneud ei waith fod. Nid hen grair yw'r wal ond peth byw sy'n parhau i danio pobl.

Ia, codi ail wal, dyna wnawn ni a fydd y pennau bach sydd mor benderfynol o'i chwalu fawr callach mai 'copi' fydd hi. Ac unwaith y bydd graffiti newydd drosti i gyd, mi geith ei phaentio eto ac eto ac eto nes eu bod nhw'n cael digon. Eu syrffedu nhw efo paent yn ogystal â geiriau.

Mae gen i swm bach o arian yn fy mhoced i fynd tuag at symud y wal wreiddiol i Sain Ffagan, ac mae gen i fag o sment, trywel a brwsh paent yn y sied i godi un arall yn ei lle. Pwy arall sy'n gêm?”

**DARN DARLLEN 6**

# ANFARWOLI GRETA THUNBERG AR WAL YM MRYSTE



Mae murlun celf stryd enfawr sy'n darlunio Greta Thunberg, yr ymgyrchydd hinsawdd 16 oed, yn boddi mewn dŵr rhewllyd wedi cael ei ddadorchuddio ym Mryste.

Treuliodd Jody Thomas fwy na phythefnos yn creu'r gwaith celf ar wal adeilad 15 metr o uchder. Mae wedi creu y darn fel rhan o ŵyl Upfest, gŵyl celf stryd fwyaf Ewrop.

"Mae Greta yn amlwg iawn ar hyn o bryd, yn cael llawer o sylw, ac mae hi'n arwain ymgyrch bwysig iawn i godi ymwybyddiaeth pobl ledled y byd am y niwed amgylcheddol rydyn ni'n ei achosi i'r blaned," meddai Jody Thomas.

Daeth yr ymgyrchydd hinsawdd o Sweden yn enw cyfarwydd ar ôl penderfynu peidio â mynd i'w gwersi yn yr ysgol ar ddyddiau Gwener. Yn lle hynny roedd hi'n treulio'r dydd y tu allan i Senedd Sweden yn protestio ynghylch diffyg ymateb y llywodraeth i'r argyfwng newid hinsawdd. Arweiniodd hyn at don o streiciau gan ddisgyblion ysgol ar draws y byd.

Mae ei geiriau doeth a gonest sy'n rhybuddio arweinwyr rhyngwladol ynghylch yr argyfwng wedi achosi cymysgedd o ganmoliaeth a gwrthwynebiad. Mae Greta wedi derbyn sawl canmoliaeth gan 'selebs' megis yr actores Anne Hathaway ond mae hi wedi wynebu gwrthwynebiad hefyd gan bobl sydd wir yn wrthamgylcheddwyr fel cyn-Arlywydd Donald Trump.

Gobaith Jody Thomas yw y bydd y murlun yn sbarduno mwy o drafodaeth am y newid yn yr hinsawdd a'i effaith ar ein cymdeithas. "Rydw i'n gobeithio y bydd y gwaith yn taro tant gyda'r bobl sy'n dod i'w weld ac yn ysbrydoli rhai i ddysgu mwy am y mater," meddai.

Mae enwogrwydd  Greta Thunberg wedi arwain at ymwybyddiaeth gynyddol, a phryder cynyddol, am yr amgylchedd. Rhyddhaodd y Cenhedloedd Unedig adroddiad sy'n darogan bod hyd at filiwn o rywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid mewn perygl o gael eu colli am byth – a hynny'n fuan – oherwydd bodau dynol.

# TUDALEN WAG